

# Chwarae

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan  
yr elusen genedlaethol dros chwarae

# dros Gymru

Rhifyn 37 Haf 2012



## Chwarae:

Beth sy'n ddigon da?



# Cynnwys

- 2 Golygyddol
- 3-5 Newyddion
- 6 Cymru – gwlad chwarae-gyfeillgar
- 7-8 Calonnau a Meddyliau: amser, lle a chaniatâd i chwarae
- 8-9 Cyfleoedd a Heriau
- 10-11 Beth mae digonolrwydd chwarae yn ei olygu i wahanol sectorau
- 12-13 Cynllunio Dinasoedd gan Ystyried y Plant
- 14 Sut mae digon o chwarae yn edrych?
- 15 Datblygu'r Gweithlu
- 16 Adolygiad llyfr

## Diolch yn fawr

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi.

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o adran newyddion ein gwefan ar

[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

# Golygydd Gwadd

Rydym ni yn Llywodraeth Cymru'n credu bod gan bob plentyn yng Nghymru yr hawl i'r cychwyn gorau mewn bywyd a'r cyfle gorau posibl i dyfu fyny yn rhydd rhag tlodi a niwed.

Mae Cymru'n arwain y ffordd ar hawliau plant – ac ar 1 Mai 2012 daeth deddfwriaeth newydd i rym sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried hawliau plant wrth inni lunio penderfyniadau ynghylch polisïau a deddfwriaethau. Bydd hyn yn sail i'r holl waith y byddwn yn ei wneud i wella bywydau plant, pobl ifainc a theuluoedd ac yn atgyfnerthu ein dulliau ymhellach.

Ni yw'r wlad gyntaf yn y DU, ac un o ddim ond llond dwrn ar draws y byd, i fabwysiadu'r agwedd yma. Golyga ein deddfwriaeth fod cyfle gan blant, neu rywun all weithredu ar eu rhan, i herio Llywodraeth Cymru os ydynt yn teimlo nad yw eu hawliau'n cael eu hystyried.

Rydym hefyd yn credu'n gryf ym mhwysigrwydd chwarae ym mywyd plant a'r buddiannau y mae'n eu cynnig i iechyd, hapusrwydd a lles. Rydym wastad wedi cefnogi Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a hawl plant i gael mynediad i ystod o weithgareddau chwarae, hamdden,

chwaraeon a diwylliannol.

Mae Cymru'n arloesi unwaith eto – ar y llwyfan byd-eang. Rydym yn credu mai ni yw'r Llywodraeth cyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer cyfleoedd chwarae plant.

Yn 2002, oherwydd ein cred yng ngwerth chwarae a'n pryder ynghylch colli cyfleoedd chwarae, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bolisi Chwarae cenedlaethol. 10 mlynedd yn ddiweddarach, rydym yn parhau â'r ymrwymiad hwn. Mae'r Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu darpariaeth cyfleoedd chwarae ac adloniant yn eu hardal. Defnyddir yr asesiadau i ddatblygu cynlluniau gweithredu awdurdodau lleol i wella cyfleoedd chwarae ar gyfer pob plentyn sy'n byw yng Nghymru; a bydd yn ein galluogi i ennill dealltwriaeth o gyfleoedd chwarae ar draws y wlad.

Rydym yn rhagweld y caiff y rhan yma o'r dyletswydd ei gychwyn ym mis Tachwedd eleni. Mae'r datblygiadau hyn yn galw am berthnasau gweithio clôs rhwng y Llywodraeth, awdurdodau lleol a'r sector chwarae. Rwy'n falch ein bod yn cydweithio â Chwarae Cymru i ddatblygu pecyn cymorth fydd yn helpu

awdurdodau lleol i gwblhau'r asesiadau hyn.

Y cam nesaf i ni fydd ystyried yr asesiadau a'r cynlluniau gweithredu. Rydym yn anelu i gychwyn ail ran y dyletswydd yng Ngwanwyn 2014, fydd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn eu hardaloedd.

Rydym am greu amgylchedd ble fo presenoldeb plant yn chwarae'r tu allan yn ein cymunedau'n cael ei groesawu a'i ddathlu, gyda mannau diogel iddynt chwarae yn awr ac mewn blynyddoedd i ddod. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gydag awdurdodau lleol a phob rhanddeiliad arall i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer chwarae.

Er bod ein polisi ar gyfer chwarae ar lefel genedlaethol o'r pwys mwyaf, rydym hefyd yn gosod gwerth mawr ar chwarae ar lefel leol. Yng Nghymru, rydym wedi ymdrechu llawer i weithio ar y cyd i greu cymdeithas sy'n parchu plant a'u hawl i chwarae, ac sy'n darparu cymunedau sy'n gyforiog o gyfleoedd chwarae ac sy'n gyfeillgar tuag at blant. Mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae wrth amddiffyn hawliau plant a gwella cyfleoedd plant i chwarae.

**Gwenda Thomas AC, Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol**



# Newyddion

## Ymgyrch Plant Awyr Iach

Hyd yma mae mwy na 3,000 o bobl wedi arwyddo llw ymgyrch Plant Awyr Iach sy'n galw am gyflwyno cyfyngiadau cyflymder o 20mya mewn ardaloedd preswyl a mwy o fuddsoddi mewn llwybrau cerdded a beicio, yn enwedig i'r ysgol. Os ydych chi'n credu y byddai cyfyngiadau cyflymder o 20mya yn beth da ar gyfer plant yn eich hardal chi, cofiwch ychwanegu eich enw i'r llw: [www.sustrans.org.uk/freerangekids](http://www.sustrans.org.uk/freerangekids)

Os ydych wedi arwyddo'r llw eisoes, diolch o galon ichi – bydd eich llais yn rhoi hygrededd i'r ymgyrch

ac ar ddiwedd y flwyddyn bydd Miranda Krestovnikoff, o deledu'r BBC, llysgennad Plant Awyr Iach, yn cyflwyno pob llw i Stryd Downing.

Ym mis Mai cynhaliodd Sustrans dderbyniad Seneddol, â chefnogaeth Dawn Primarolo AS, pryd y cyflwynodd yr elusen a mudiadau cefnogol eraill yr achos dros well bargaen ar gyfer plant i Aelodau Seneddol a swyddogion iechyd a diogelwch a chlodiant awdurdodau lleol, gyda'r bwriad o gynyddu ymwybyddiaeth a rhannu arfer da.



## Her Caeau Chwarae

Ymatebodd Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru â brwdfrydedd i gynllun Meysydd Chwarae Cymru, sef rhaglen Etifeddiaeth y Jiwbilî Deimwnt, Her Meysydd Brenhines Elisabeth II.

Bwriad yr Her yw diogelu 2,012 o fannau hamdden awyr agored i gofnodi'r Jiwbilî Deimwnt yn ogystal â Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain, gyda tharged o 100 o fannau yng Nghymru. Hyd yma mae 86 o safleoedd, yn amrywio o feysydd chwarae, i barciau gwledig, caeau chwarae, gwarchodfeydd natur a choedwigoedd wedi eu henwebu i'w gwarchod ac mae chwe mis yn dal ar ôl ar gyfer yr her.

Meddai Rhodri Edwards, Rheolwr Datblygu Meysydd Chwarae Cymru: *'Rydym wrth ein bodd gyda'r ymateb a gafwyd i'r Her ac yn hyderus y byddwn yn cyrraedd ein nod o 100 cyn diwedd y flwyddyn. Mae mwy na hanner ein Cynghorau Sir wedi enwebu safleoedd eisoes, ac mae digon o amser yn dal i fod ar gael i ymuno yn yr Her.'*

[www.fieldsintrust.org](http://www.fieldsintrust.org) neu [www.qe2fields.com](http://www.qe2fields.com)

## Papur Gwyn Teithio Llesol

### Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Deithio Llesol (llwybrau ar gyfer cerdded a seiclo)

Ar 12 Gorffennaf 2011 fe wnaeth Prif Weinidog Cymru ddatganiad am y Rhaglen Ddeddfwriaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn y datganiad hwnnw cyhoeddodd ei fwiad i ddeddfu i gyflwyno dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu a chynnal llwybrau beiciau mewn ardaloedd allweddol.

Ar 9 Mai 2012 cyhoeddodd Carl Sargeant, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Bapur Gwyn i geisio barn unigolion ar gynigion ar gyfer Bil Teithio Llesol (Cymru). Cyfrannodd Chwarae Cymru at ddatblygiad y Papur Gwyn trwy broses ymgysylltu â rhanddeiliaid a hwyluswyd gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Bil arfaethedig yn mynnu bod awdurdodau lleol yng Nghymru â dyletswydd i:

- ddynodi a mapio'r rhwydwaith o lwybrau a geir yn eu hardaloedd sy'n ddiogel a phriodol ar gyfer cerdded a beicio;
- dynodi a mapio'r gwelliannau fyddai eu hangen i greu

rhwydwaith cwbl integredig ar gyfer cerdded a beicio a datblygu rhestr wedi ei flaenoriaethu o gynlluniau ar gyfer trosglwyddo'r rhwydwaith;

- trosglwyddo rhwydwaith gwell, yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael a gan lynu at y drefn briodol;
- ystyried y potensial ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio yn natblygiad cynlluniau ffyrdd newydd.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 14 Awst 2012 a disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod gwanwyn 2013.

<http://cymru.gov.uk/consultations/transport/activetravelbill/?lang=cy>



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government




# Grŵp Ymchwil Plant yn derbyn grant

Mae'r Grŵp Datblygu Ymchwil Iechyd ac Amgylchedd Plant wedi derbyn cyllid gan Rwydwaith Ymchwil Plant a Phobl Ifanc Cymru (CYPRN). Ffocws y Grŵp fydd ymchwilio a chasglu data y gellir ei ddefnyddio i gynllunio ceisiadau o ansawdd uchel i arianwyr cenedlaethol ar gyfer archwilio ffactorau sy'n dylanwadu ar bob agwedd o weithgarwch corfforol

mewn plentyndod, yn cynnwys yr amgylchedd lleol, fel parciau a meysydd chwarae lleol, ysgolion a lleiniau gwyrddion lleol. Mae sicrhau newidiadau i'r amgylchedd yn gostus; felly gall y Grŵp ddatblygu'r dystiolaeth o ansawdd uchel sydd yn angenrheidiol i hysbysu'r sectorau iechyd a chynllunio.

Caiff y grŵp ymchwil ei arwain gan Dr Sarah Rogers o Goleg Meddygaeth Prifysgol Abertawe; mae Chwarae Cymru yn fudiad partner.

[www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=970](http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=970)



## 'Gadewch i'n Plant Fentro'

Mewn blog diweddar galwodd Judith Hackitt, Cadeirydd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), ar i blant gael caniatâd i gymryd risg. Yn y blog, *Outdoor play – let our children take a risk*, meddai Judith:

*'Yn yr HSE, rydym yn canolbwyntio ar iechyd a diogelwch yn y gweithle, ond mae'n amlwg bod agweddau tuag at risg yn cael eu ffurfio*

*ymhell cyn i bobl ifanc ymuno â'r byd gwaith. Bydd chwarae – ac yn enwedig chwarae'r tu allan – yn dysgu pobl ifanc sut i ymdopi â risg. Heb yr ymwybyddiaeth a'r dysg yma prin fydd eu sgiliau i ddelio â bywyd gwaith. Yn syml iawn, allwn ni ddim fforddio i eithrio dysg a chwarae awyr agored o addysg ein plant.*

*'Ddylen ni ddim amddifadu [ein*

*plant] rhag cael cyfle i ddysgu trwy gymryd risg. Yn y pen draw bydd ceisio eu hamddiffyn rhag pob perygl posibl, yn hytrach na cheisio rheoli'r risgiau real y byddant yn eu wynebu, yn golygu eu bod mewn perygl, heb sôn am eu hamddifadu o atgofion fydd yn para oes.'*

[www.hse.gov.uk/news/judith-risk-assessment/kidsoutdoors070612.htm](http://www.hse.gov.uk/news/judith-risk-assessment/kidsoutdoors070612.htm)

## Cynllun Hawliau Plant

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar agwedd seiliedig ar hawliau Llywodraeth Cymru tuag at lunio polisiâu ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Ni yw'r wlad gyntaf yn y DU i gorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn cyfraith ddomestig.

Mae Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru'n amlinellu'r trefniadau sydd yn eu lle gan Weinidogion Cymru i sicrhau eu bod nhw, a staff Llywodraeth Cymru, yn cydymffurfio â'r dyletswydd y mae'r Mesur yn ei osod arnynt – i barchu hawliau plant pan yn gweithio ar neu'n datblygu deddfwriaethau newydd arfaethedig, polisiâu newydd arfaethedig ac unrhyw adolygiadau neu ddiwygiadau i bolisiâu sy'n bodoli eisoes.

Meddai'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC:

*'Ein nod yw meithrin diwylliant o fewn Llywodraeth Cymru ble y ceir gwerthfawrogiad llawn o hawliau plant a'n bod yn eu hystyried, yn gwbl ymwybodol, yn ein gwaith i gyd.'*

<http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/rights/?skip=1&lang=cy>



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Margaret Jones

Bu farw Margaret Jones MBE yn ddiweddar, yn dilyn afiechyd maith.

Yn ystod gyrfa eang a disglair, sefydlodd Margaret Goleg Cymunedol YMCA Cymru fel darparwr Addysg Bellach a Dysgu Gydol Oes. Golygodd ei harweiniad hi i'r Coleg dyfu i fod y llwyddiant y mae heddiw, gan gynnig cyfleoedd i'r rheini sydd ddim am ddilyn llwybrau dysgu traddodiadol.

Roedd ei natur addfwyn yn cuddio synnwyr digrifwch drygionus yn ogystal â brwdfrydedd ac ymroddiad aruthrol i'r hyn yr oedd yn ei wneud. Mae ei gwaith diflino'n gadael etifeddiaeth neilltuol ar ei hôl i Gymru.

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Margaret, a'i chyfeillion a'i chydweithwyr i gyd.

# Adroddiad Diogelwch Plant

Mae *The Child Safety Report 2012* yn dangos bod Cymru wedi sicrhau gwelliannau pwysig i atal anafiadau ers 2009 – ond mae gwaith ar ôl i'w wneud.

Datblygwyd Cardiau Adroddiad ar Ddiogelwch Plant (*Child Safety Report Cards*) gan yr *European Child Safety Alliance* i ddarparu trosolwg sy'n cynnig crynodeb o'r lefelau diogelwch y bydd gwledydd yn eu darparu i blant trwy bolisiau cenedlaethol. Nod y Cardiau Adroddiad yw pwysleisio cryfderau a gwendidau pob gwlad.

Dengys yr adroddiad bod Cymru, ar raddfa o 60 ar gyfer dulliau profedig i leihau anafiadau a marwolaethau trwy ddamweiniau, wedi sgorio 30.5, sy'n

uwch na'r sgôr o 29.5 yn 2009 – o'i gymharu â'r Alban ar 39 pwynt. Yn gyffredinol, derbyniodd Cymru sgôr 'gweddol'.

Sgoriodd Cymru un seren (allan o bump posibl) ar gyfer diogelwch beicio a dwy seren ar gyfer diogelwch cerddwyr. Meddai'r adroddiad: 'Mae Cymru wedi gwneud gwaith da wrth fynd i'r afael â materion diogelwch yn ymwneud â phlant a phobl ifainc ar y ffyrdd, fodd bynnag arweiniodd absenoldeb strategaeth genedlaethol gyfredol ar gyfer diogelwch ffyrdd at sgorau is ar gyfer diogelwch traffig ffyrdd ... byddai gwell arweinyddiaeth a perchenogaeth yn gwella mesurau atal a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifainc yng Nghymru'.

Mewn ymateb i'r Cerdyn Adroddiad dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru:

*'O ran diogelwch ffyrdd, gwelwyd gwelliannau sylweddol yn ystod y degawd diwethaf, gyda gostyngiad o 54% mewn achosion o blant yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yn 2011. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy.'*

[www.childsafetyeurope.org/reportcards/index.html](http://www.childsafetyeurope.org/reportcards/index.html)

# Ymchwil Plant a Natur

Mae adroddiad newydd gan yr RSPB yn dwyn ynghyd y prif ganfyddiadau ac argymhellion o waith ymchwil a gynhaliwyd dros y degawd diwethaf i amrywiol fuddiannau cysylltiad â natur a phrofiadau awyr agored i blant.

Yn ogystal, comisiynodd yr RSPB ymchwil yn gofyn pa rai o ddeuddeg profiad awyr agored yr oedd cyhoedd Prydain yn eu cofio o'u plentynod – roedd y rhestr yn

cynnwys dringo coed, nofio mewn afon a chasglu pryfetach. Dringo coed a chwarae concyrs ddaeth i'r brig – roedd 70% o'r cyhoedd a holwyd yn cofio'r ddau beth yma (maint y sampl: 1,012 – yr oedd 50 ohonynt o Gymru).

Mae'r adroddiad yn datgan bod 'tystiolaeth o ostyngiad sylweddol mewn plant' yn profi natur a'r awyr agored heddiw. Canfyddodd ymchwil yr RSPB bod 92% o bobl

yng Nghymru'n cytuno ei bod yn bwysig i blant gael y math yma o brofiad bob diwrnod.


Mae adroddiad *Every Child Outdoors Wales* ar gael i'w lawrlwytho ar: [www.rspb.org.uk/wales](http://www.rspb.org.uk/wales)



# Ymgyrch y Comisiynydd Plant

Mae Comisiynydd Plant Cymru, Keith Towler, wedi lansio ymgyrch newydd i roi taw ar y labeli negyddol y bydd plant a phobl ifainc yn eu wynebu bob dydd. Bydd ymgyrch 'See Me/Dyma Fi' yn anelu i chwalu'r ystrydebau negyddol yma a helpu i wella agweddau tuag at blant a phobl ifainc yng Nghymru.

Meddai Keith Towler, 'Mae gennym wir gyfle i hybu delweddau cadarnhaol o blant



*a phobl ifainc, i'w cynrychioli mewn modd cytbwys a chyfrifol yn ein holl waith ac i ddod yn esiampl i wledydd eraill y DU ac ar draws y byd.'*

Mae gwefan yr ymgyrch yn cynnwys canllawiau golygyddol, oriel o luniau sy'n rhydd o hawlfraint, a chyfle i blant a phobl ifainc gael dweud eu dweud ar faterion sy'n effeithio arnynt.

[www.seeme-dymafi.org.uk](http://www.seeme-dymafi.org.uk)

# Cyfringau Cymdeithasol



[www.facebook.com/ChwaraeCymru](http://www.facebook.com/ChwaraeCymru)



[twitter.com/ChwaraeCymru](http://twitter.com/ChwaraeCymru)

# Cymru gwlad chwarae-gyfeillgar

Mae **Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar** yn ymgyrch gan Chwarae Cymru i helpu i greu rhwydwaith o gefnogaeth ar gyfer chwarae ar draws Cymru. Gall Cymunedau ei ddefnyddio hefyd i sefydlu eu ymgyrchoedd lleol eu hunain dros chwarae plant a bod yn rhan o fudiad cenedlaethol ar yr un pryd.

Gallwch rannu'r hyn sy'n digwydd yn lleol, sydd unai'n gwarchod neu'n gwahardd hawl plant a phobl ifainc i chwarae, ar dudalen yr ymgyrch ar Facebook.

Dyma ddwy enghraifft o brosiectau sy'n cyfrannu at wneud Cymru'n wlad gyfeillgar ar gyfer plant sy'n chwarae.



## Cynllun Chwarae Haf Y Fro

Fel arwydd o'u ymrwymiad i gynwysoldeb, mae tîm datblygu chwarae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymladd yn galed i ddarparu cyfleoedd chwarae cynhwysol ar gyfer plant lleol eleni.

Ers nifer o flynyddoedd, mae'r tîm wedi arloesi ym maes trosglwyddo cynlluniau chwarae cynhwysol ar gyfer plant anabl a phlant sydd ddim yn anabl fel ei gilydd. Fodd bynnag, pan ddaeth ariannu Cymorth i ben yn gynharach eleni, roedd prosiectau chwarae'r Fro dan fygythiad. Cafwyd toriadau, a dim ond ar gyfer rhedeg cynlluniau chwarae ar gyfer plant anabl yr oedd ariannu ar gael a hynny trwy elfen Ffrwd Anabledd Teuluoedd yn Gyntaf.

Cynhaliwyd peilot o gynllun chwarae ar gyfer plant anabl yn unig ym mis Mehefin 2012 i weld sut y byddai hyn yn gweithio, ond pwysleisiodd adborth a dderbyniwyd gan rieni a staff y byddai cynllun chwarae cynhwysol wedi bod yn llawer mwy buddiol a phlesurus.

Gweithiodd y tîm datblygu chwarae â phartneriaid mewnol ac allanol i amlygu'r angen i barhau i ddarparu cynlluniau chwarae cynhwysol a, diolch i'r drefn, clustnodwyd cyllid i ganiatáu i gynlluniau chwarae cynhwysol barhau yr haf yma, er y byddant yn llai niferus.

Mae Cyngor y Fro yn gefnogol o'r Aseidiadau Digonolrwydd Chwarae arfaethedig ac maent yn ystyried hwn fel cam cadarnhaol ymlaen ar gyfer pwysleisio'r angen am fwy o fuddsoddi mewn cyfleoedd chwarae.

Am fwy o wybodaeth am y cynlluniau chwarae, cysyllter â Joanne Jones ar 01446 704809 neu ymwelwch â [www.valefoglammorgan.gov.uk/sportsandplay](http://www.valefoglammorgan.gov.uk/sportsandplay)



<http://on.fb.me/gwladchwaraegyfeillgar>

## Siop Chwarae 'Pop-Up'!

Mae'r Siop Chwarae 'Pop-Up' wedi llwyddo i ennill ei hachos dros gael prosiect sy'n rhydd o dreth cyngor yng Nghanol Dinas Caerdydd. Meddai Morgan Leichter-Saxby, ar ran *Pop-Up Adventure Play*:

*'Hoffem ddiolch i'r trigolion lleol, cymuned y ganolfan siopa ac i weithwyr chwarae ar draws y DU am ddangos eu cefnogaeth i'r Siop Chwarae'.*

O ganlyniad i lwyddiant y siop gyntaf, nawr mae cynlluniau pellach ar y gweill. Mae *Pop-Up Adventure Play* yn anelu i lunio partneriaeth gyda mudiadau eraill er mwyn gwneud yr ail rownd o Siopau Chwarae hyd yn oed yn fwy llwyddiannus.

[www.popupplayshop.org](http://www.popupplayshop.org)

# Calonnau a meddyliau:

## Amser, Lle a Chaniatâd i Chwarae

Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â Chwarae Cymru i ddatblygu adnoddau ar gyfer pecyn cymorth fydd yn cynorthwyo awdurdodau lleol a'u partneriaid i gynnal Asesiadau Digonolrwydd Chwarae, yn unol â rheoliadau.

Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal. Daw'r Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae fel rhan o agenda Llywodraeth Cymru'n erbyn tlodi – sy'n cydnabod y gall plant ddioddef o dlodi profiad, cyfle ac uchelgais, ac y gall y math yma o dlodi effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar draws Cymru.

Mae gan y Dyletswydd yma'r potensial i sicrhau newidiadau real ac arwyddocaol fydd yn cefnogi hawl plant i chwarae yn ogystal â darparu llawer iawn o brofiadau a chyfleoedd ar eu cyfer.

Yn gyffredinol, gallwn ddisgrifio ein cymdeithas fel un ble y mae llai a llai o bobl yn ystyried presenoldeb plant y tu allan ar y stryd fel ymddygiad derbyniol. At hyn ychwanegwch dra-arglwyddiaeth ceir a'u gyrwyr, a 'dyw'r byd y tu allan i ddrws y tŷ ddim yn ymddangos yn arbennig o ddeniadol i unrhyw un fyddai am chwarae yno ... a bydd plant yn dweud wrthym yn rheolaidd mai'r tu allan y maent am chwarae. Dyluniwyd y pecyn cymorth i ganolbwyntio ar drosi polisi a deddf yn wir wahaniaethau ar gyfer plant yn eu stryd a'u cymuned eu hunain.

Gellir rhannu'r rhwystrau i weld plant a phobl ifainc yn chwarae'r tu allan yn 'agweddau' ac 'amgylcheddau'. Dyw'r categorïau hyn ddim yn annibynnol ar ei gilydd ac mae'r materion a godwyd yn cyd-berthyn â'i gilydd; maent yn torri ar draws ffiniau adrannol. Yn ddelfrydol, bydd gan blant a phobl ifainc yr hyder i chwarae a chymdeithasu ym mhob agwedd o'u bywydau. Felly bydd mesurau i gynyddu cyfleoedd ar gyfer chwarae'n gofyn am agwedd gydlynol bendant rhwng asiantaethau, llunwyr polisiâu a darparwyr yn ogystal â'r rheini sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant a phobl ifainc a'u rheini mewn cymunedau.

### Gweithio mewn partneriaeth

Bydd cynnal yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yn erbyn criteria'r Canllawiau Statudol yn galw am fabwysiadu sgiliau ac agwedd partneriaeth. Bydd y gwaith o gasglu a dadansoddi data'n gofyn am gyfraniad amrywiol bartneriaid, a bydd swyddogaethau penodol yn cynnwys:

- **Staff yr awdurdod lleol:**
  - Tîm Gwasanaethau Chwarae
  - Cymorth plant ag anabledd
  - Tîm mapio / Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS)
  - Cynllunio
  - Ymchwil
  - Marchnata
  - Trafnidiaeth
  - Gwasanaethau amgylcheddol / parciau
  - Gwasanaethau Hamdden
  - Gwasanaethau Ieuenctid
  - Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
  - Gweithwyr Cyfranogaeth

- Y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chymorth i deuluoedd
- Swyddogion datblygu / partneriaethau cymunedol
- Ystadau Addysg
- Cymdeithas Chwarae Wirfoddol Ranbarthol
- Darparwyr chwarae'r sectorau gwirfoddol a chymunedol
- Cyngorau Tref a Chymuned

Bydd y pecyn cymorth yn cynnig dulliau ymarferol a pholisi allai ein helpu i asesu a delio â rhwystrau a chreu Cymru well ar gyfer plant a phobl ifainc i fyw a chwarae ynddi. Er mwyn inni allu achub ar y cyfle y mae'r ddeddfwriaeth yma'n ei gynnig, a gwneud iddi weithio i'r plant, mae'n amlwg y bydd angen inni ddefnyddio ein adnoddau presennol unai mewn modd mwy effeithlon neu mewn modd gwahanol.

Mae chwarae a chymdeithasu'n golygu mwy na chyrraedd cyrchfan; mae'n ymwneud â'r daith trwy ac o amgylch yr amgylchedd a'r gymuned. Mae angen inni newid amgylcheddau trwy ein cymunedau er mwyn creu Cymru sy'n chwarae-gyfeillgar; bydd hyn yn galw am gynorthwyo i newid agweddau a ffyrdd o feddwl – trwy ddulliau addysgiadol yn ogystal â 'rheoleiddiol'.

Pan fydd gorfodaeth y Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn effeithlon, bydd llawer mwy o blant a phobl ifainc i'w gweld yn chwarae allan yn ein cymunedau; a thrwy eu presenoldeb yn cyfrannu at les cymdeithas.

## Sut y mae'r Pecyn Cymorth yn cael ei ddatblygu

Adolygwyd nifer o ddiulliau sy'n bodoli eisoes, ynghyd â systemau asesu a sicrhau ansawdd, dogfennau polisi a strategaethau er mwyn hysbysu datblygu'r pecyn cymorth. Mae'r diulliau a ddarperir yn dempled profedig sy'n seiliedig ar y materion y bydd angen eu hystyried o fewn y Canllawiau Statudol.

Rydym wedi ceisio sicrhau bod datblygiad y pecyn cymorth yn broses gynhwysol. Fe'i datblygwyd mewn cydweithrediad ag ystod eang o bartneriaid yn cynnwys:

- Rhwydwaith Chwarae Strategol Cymru Gyfan (swyddogion chwarae yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol)

- Grŵp Prif Swyddogion Hamdden Gwent
- Cyfranogwyr yn nigwyddiadau ymgynghori Llywodraeth Cymru yn Abertawe, Llandudno a Merthyr Tudful
- Swyddogion Dysgu Gydol Oes ac Amgylchedd ac Adfywio Sir Y Fflint
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Prif Swyddog Chwarae Conwy (ar secondiad o Chwarae Cymru)
- Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru
- Uned Cyfranogaeth

Bydd Asesiad Digonolrwydd Chwarae, o'i gynnal yn dda, yn darparu'r dystiolaeth y bydd awdurdodau

lleol ei angen i ddynodi bylchau mewn darpariaeth a datblygu cynlluniau gweithredu er mwyn delio â'r gwendidau hyn. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant, cyn belled â bo'n rhesymol ymarferol.

Mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi datblygu strategaethau a pholisiau chwarae sy'n seiliedig ar y Polisi Chwarae cenedlaethol a Chynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae. O ganlyniad i hyn, mae gan lawer o awdurdodau lleol sail cadarn eisoes ar gyfer creu strategaeth a pholisi lleol sy'n datblygu arferion gweithio trawsadrannol, gweithdrefnau datblygu a gweithredu polisi i gyfoethogi cyfleoedd plant a phobl ifainc i chwarae.

Mae Chwarae Cymru wedi cynhyrchu adnoddau i helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i baratoi ar gyfer yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae. Mae'r daflen wybodaeth *Paratoi ar gyfer Asesiadau Digonolrwydd Chwarae* a dogfennau perthnasol eraill ar gael i'w lawrlwytho ar: [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

# Cyfleoedd a Heriau

cyfweliad gyda  
Peter Gomer

Ym mis Mai, hwylusodd Llywodraeth Cymru Ddigwyddiadau Ymgysylltu Cyfleoedd Chwarae ar gyfer awdurdodau lleol a phartner-randdeiliaid. Cyfrannodd y digwyddiadau at ymgysylltu ac ymgynghori pellach ar ddechrau Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru).

Rhannodd Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chwarae Cymru lwyfan yn y Digwyddiadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid hyn.

Sgwrsiodd ein Cyfarwyddwraig Gynorthwyol, Marianne Mannello, â Peter Gomer, Cynghorydd Polisi Dros Dro (Hamdden, Diwylliant, Twristiaeth a Threftadaeth) gyda CLILC am gychwyn y dyletswydd hwn.

### Marianne: Pa fath o gyfleoedd gredwch chi fydd y ddeddf yma'n eu cynnig i awdurdodau lleol?

**Peter:** Er bod gan Lywodraeth Cymru Bolisi Chwarae ers 2002 a Chynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae yn ei le ers 2006, daeth yn amlwg o'r digwyddiadau ymgysylltu bod llawer o awdurdodau lleol heb ddatblygu polisi chwarae. Ble fo awdurdod wedi llunio strategaeth chwarae mae'n

ymddangos eu bod yn canolbwyntio'n gryf iawn ar feysydd chwarae ag offer sefydlog a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau. Am flynyddoedd lawer, meysydd chwarae fu'r ffocws yn hytrach na chwarae rhydd, chwarae anturus ac yn y blaen.

Bydd yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae a'r Canllawiau Statudol newydd yn dangos y bydd y rheini sydd wedi datblygu polisi a / neu

strategaeth yn amlwg yn sylweddoli buddiannau meddu ar un – mae'n bosibl y bydd eraill yn teimlo bod yr asesiad a'r canllawiau'n ddigon dychrynllyd. Bydd y mwyafrif o awdurdodau lleol yn gweld y dyletswydd newydd hwn fel cam defnyddiol ymlaen wrth iddynt gynllunio i ddatblygu rhagor o gyfleoedd chwarae. Rwy'n falch bod y Canllawiau'n cydnabod rôl pob



partner o fewn y gymuned i weithio â'i gilydd, ond mae'n bosibl y bydd angen i'r Canllawiau ddatgan yn fwy croyw bod angen gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol.

**Marianne: Rwyf wedi dysgu, trwy gynnal adolygiadau Cyflwr Chwarae Chwarae Cymru, bod y mwyafrif o awdurdodau lleol wedi datblygu strategaethau chwarae yn ystod y degawd diwethaf a bod llawer ohonynt yn adlewyrchu'r strategaeth genedlaethol. Fodd bynnag, y camau rhwyddaf i'w gweithredu o fewn y strategaethau hyn oedd y rheini'n ymwneud ag ardaloedd chwarae offer sefydlog traddodiadol, darpariaeth chwarae wedi ei staffio a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau. Er bod y strategaethau'n cynnwys camau gweithredu ar gyfer trafniadaeth, iechyd a diogelwch a chynllunio, ni fu'n rhwydd i'w gweithredu. Ydych chi'n credu y bydd natur eang a chynhwysol y Canllawiau Statudol yn ei gwneud hi'n haws i Awdurdodau Lleol sicrhau cynnydd yn y meysydd eraill hyn?**

**Peter:** Ceir cymysgedd o lefelau dealltwriaeth. Pan ddatblygwyd Grwpiau Nod Craidd 4, fel rhan o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc, fe sylweddolodd nifer o awdurdodau ar y pryd mai un o'r ffactorau gwanaf o fewn eu hawdurdod oedd darpariaeth chwarae. Ac o'r herwydd, fe wnaeth llawer o awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer a throsglwyddo rhagor o ddarpariaeth chwarae yn eu rhaglen nodau craidd.

Mae angen inni gydnabod y modd hanesyddol y mae awdurdodau lleol, yn draddodiadol, wedi gwella meysydd chwarae a chyflwyno ardaloedd chwarae. Tueddodd hyn i fod o ganlyniad i bwysau gan gymunedau a chytundebau cynllunio (Cytundebau Adran 106) â datblygwyr tai. Welwyd dim, neu fawr ddim, pwyslais ar ddynodi blaenoriaethu anghenion. Dylai strategaethau newydd sy'n codi o'r Asesiad Digonolrwydd fynd i'r afael â hyn yn y dyfodol ac arwain at agwedd llawer mwy ystyriol ynghylch sut a ble y caiff chwarae ei ddarparu. Rwy'n gobethio y gwnaiff gyfrannu at agwedd sy'n canolbwyntio llai ar y Safon 6 Erw o'r safbwynt cynllunio, oherwydd nad yw'r safonau hyn yn ddefnyddiol ar gyfer

awdurdodau lleol oni bai eu bod yn cael eu defnyddio'n gwbl amlwg ochr yn ochr â dulliau dynodi anghenion eraill, fel proffiliau demograffig o oedran y boblogaeth o fewn ffiniau ward neu gymuned.

**Marianne: Ydych chi'n credu bod yr Asesiadau'n cynnig cyfle ar gyfer cynllunio gwell, sy'n seiliedig ar angen yn hytrach na'r agwedd dibynnu ar alw traddodiadol?**

**Peter:** Tan nawr doeddwn i heb gael fy argyhoeddi bod mecanwaith ar gael ar gyfer cynllunio i'r dyfodol ar gyfer proffiliau demograffig oedran y bobl fyddai'n debygol o ddod i mewn i ddalgylch, er enghraifft. Fel rhan o'r Asesiadau Digonolrwydd bydd angen i awdurdodau lleol ddefnyddio proffilio demograffig a mapio Systemau Gwybodaeth Daaryddol (GIS).

Bydd y ddeddfwriaeth yma'n galw am agwedd fwy gwyddonol tuag at drosglwyddo gwasanaethau. Unwaith i'r awdurdodau lleol gynnal yr Asesiadau Digonolrwydd bydd ganddynt syniad llawer gwell ynghylch sut y maent am ddatblygu eu darpariaeth chwarae. Bydd y broses yn eu helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r sector, er enghraifft, grwpiau cymunedol a grwpiau eglwys sy'n darparu cyfleoedd chwarae. Gall awdurdodau lleol drafod yn well â'r grwpiau hynny i ganfod beth sy'n bodoli eisoes.

**Marianne: Am wn i bod hynny'n rhoi cyfle i'r grwpiau hynny dderbyn mwy o gefnogaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf am chwarae.**

**Peter:** Mae hynny'n bwynt da iawn. Un o'r pryderon yw y gallai'r mesur hwn gostio llawer o arian, ond wyddon ni ddim eto. Os allwn ni harneisio arfer da, cefnogaeth a defnyddio'r canllawiau, fe fydd hi'n rhwyddach weithiau i gefnogi'r sector gwirfoddol i ddarparu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu cymunedau.

**Marianne: Rwy'n cofio gweithio gyda chi pan oeddech yn Brif Swyddog Hamdden yng Nghaerffili, ble roedd llawer yn eich ystyried fel cenhadwr dros chwarae plant. Beth fyddai eich ymateb i'r Canllawiau a'r Dyletswydd pe baech yn dal i**

**fod yn swyddog awdurdod lleol?**

**Peter:** Ar y cyfan, fe fyddwn wedi croesawu'r Canllawiau Statudol gan y byddant yn cadw chwarae'n uchel ar yr agenda ym meddwl awdurdodau lleol ac mewn cynllunio corfforaethol, er enghraifft.

Fy unig bryder yw efallai bod y ddeddfwriaeth wedi mynd yn rhy bell wrth geisio cwmpasu elfen adloniadol hamdden, diwylliant a'r celfyddydau. Mewn llawer o ardaloedd ceir darpariaeth dda ar gyfer y rhain eisoes, gyda grwpiau'n pennu safonau er mwyn sicrhau arfer da. Rwyf braidd yn bryderus y bydd pobl yn canolbwyntio cymaint ar gynnwys yr elfen adloniadol yn eu cynlluniau ac y gallem yn y pen draw gollu'r un elfen y mae gwir angen inni ganolbwyntio arno mewn gwirionedd, sef yr elfen chwarae a ddewisir o wirfodd.

Rwy'n teimlo y byddai'n well i beidio â bod wedi cynnwys yr elfen adloniadol a hamdden, yn enwedig yn rownd gyntaf yr asesiad. Byddai wedi bod yn well inni allu canolbwyntio ar chwarae fel yr ydym yn deall chwarae er mwyn chwarae o wirfodd, yn hytrach na phethau fel gwersi nofio a dosbarthiadau celf. Rwy'n poeni y gallai asesu'r elfen adloniadol dynnu sylw pobl – fydd pobl ddim yn deall bod hyn yn ymwneud â 'chwarae a ddewisir o wirfodd', ac mae hynny'n destun pryder.

**Marianne: Ydych chi'n credu bod hyn yn cynnig cyfle inni weithio ar y cyd i gyfleu neges gytbwys i awdurdodau lleol a mudiadau i gydweithio i ddeall mai'r bwriad yw i'r ddeddf ddiogelu chwarae?**

**Peter:** Ydw, mae gennym rôl i'w chwarae'n cynhyrchu gwybodaeth sydd yn hygyrch i awdurdodau lleol, fel eu bod yn cadw ar y trywydd cywir. Ein rôl yw sicrhau bod yr 'elfen chwarae' allweddol yn cael ei chynrychioli'n dda iawn.

Gallwn helpu awdurdodau lleol i ddefnyddio gwybodaeth sy'n bodoli eisoes a'i drosi'n ffurf dealladwy y gellir ei ddefnyddio ar draws Cymru, yn hytrach na gweld pob awdurdod yn dilyn ei drywydd ei hun o ran yr hyn y byddant yn ei wneud. Rwy'n gobethio y bydd y pecyn cymorth y mae Chwarae Cymru'n ei ddatblygu'n helpu gyda hynny.

# Beth mae Digonolrwydd Chwarae yn ei olygu i Wahanol Sectorau

## Safbwynt Gwaith Chwarae

Mae'r dyletswydd statudol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn gamp arall i Gymru ac yn orchest aruthrol i bob un sydd wedi eiriol dros hawl plant i chwarae. Mae'n garreg filltir polisi arall mewn fframwaith strategol sy'n cydnabod y plentyn fel 'bod dynol' a nid dim ond 'bydd dynol' ac sy'n gwerthfawrogi ei natur cynhenid i chwarae fel awydd pwysig a gwerth chweil.

Bydd y Dyletswydd yn gorfodi pob un sy'n gyfrifol am chwarae, hamdden a chyfleoedd adloniadol i dalu ystyriaeth dyledus i anghenion chwarae ac ymddygiadau chwareus plant. Ac, wrth wneud hynny, i sicrhau, cyn belled â bo'n rhesymol ymarferol o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd a chylch gwaith y sefydliad, bod darpariaeth digonol yn ei le i blant wireddu eu hawl i chwarae a bod yn chwareus.

Nid yw'n fwiad gan y dyletswydd yma i droi pob sefyllfa ac amgylchedd yn un gwaith chwarae, ond yn hytrach mae'n anelu i sicrhau bod pob sefyllfa, amgylchedd a pholisi sy'n effeithio ar blant yn cydnabod, gwerthfawrogi a darparu ar gyfer eu hawl i chwarae

**Ben Tawil**, *Uwch-Ddarlithydd mewn Astudiaethau Plentynod ym Mhrifysgol Glyndŵr*

## Safbwynt Iechyd

Fe wyddom bod chwarae'n hanfodol i famaliaid ifanc ennill sgiliau goroesi. Efallai nad yw'n syndod felly bod chwarae'n hanfodol hefyd ar gyfer iechyd dynol.

Mae hyn yn gweithio ar dair lefel. Yn gyntaf, mae'r buddiannau iechyd corfforol uniongyrchol i'r person ifanc. Bydd gweithgarwch corfforol yn cynyddu cryfder ac ystwythder, mae'n cynyddu gwytnwch yn erbyn anhwylderau corfforol, a gall leihau'r perygl o fod dros eich pwysau. Mewn amgylchedd sy'n gynyddol 'obesogenic' – ble ei bod bellach bron iawn yn rhwyddach i or-fwyta a thyfu'n segur nag i'r gwrthwyneb – mae'n rhaid bod popeth y gallwn ei wneud i leihau gordewdra mewn plentynod yn beth da.

Yn ail, mae chwarae'n cyfrannu at les. Mae hyn yn gysyniad llawer ehangach na iechyd corfforol, ond bellach ceir tystiolaeth cryf a chynyddol bod pobl o bob oed yn mwynhau gwell iechyd corfforol os ydynt yn hapus a bodlon â'u bywyd. Bydd plant sy'n gwneud yr hyn y bydd plant yn ei wneud yn naturiol – hynny yw, chwarae – yn tueddu i fod yn fwy bodlon, ac ar yr un pryd byddant yn ennill prif nod athronwyr hynafol – meddwl iach mewn corff iach.

Yn olaf dylid ystyried iechyd cymdeithas. Fel y dywed y ddihareb Saesneg 'No man is an island', ac fydd cymuned ble y mae'r bobl sy'n byw ynnddi'n ystyried bod pobl ifanc fel niwsans, neu'n fygythiad hyd yn oed, fyth yn gymuned iach.

Felly mae chwarae'n cyfrannu at les corfforol a meddyliol unigolion, ac at iechyd cymdeithas. Synnwyr cyffredin!

**Marcus Longley**, *Cyfarwyddwr Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ac Athro Polisi Iechyd Cymhwysol, Prifysgol Morgannwg*

## Safbwynt Dylunio

Mae gennym gyfle i gyflwyno cyfleoedd ac offer chwarae ar strydoedd adwerthu ac ardaloedd cerdded yng nghanol dinasoedd. Dylem fabwysiadu'r egwyddor o 'lwybrau chwarae' neu 'fap chwarae' yn hytrach na chyfyngu chwarae i ardal wedi ei neilltuo. Mae'n bryd inni sylweddoli bod yr hyn y mae canol trefi a dinasoedd yn ei gynnig i blant yn annigonol – mae'r manau yma iddyn nhw hefyd.

Mae gan strydoedd preswyl hefyd rôl allweddol wrth ddarparu cyfleoedd chwarae. Mae fy ngwaith ymchwil yn dangos bod parthau cartrefi'n sicrhau newid sylweddol yn y defnydd o'r stryd, a hynny o blaid plant. 'Dyw gostwng y cyfyngiad cyflymder i 20mya ddim yn ddigon. Mae rhaid inni sicrhau mai nid dim ond cyfrif twmpathau arafu traffig fydd Cynghorau er mwyn arddangos eu bod yn trosglwyddo amgylcheddau chwarae.

Mae'n bwysig bod y teitl cyfreithiol ar gyfer strydoedd preswyl â gofod cyffredin yn cael ei ddefnyddio yn y canllawiau: sef, parthau cartrefi.

# Rydym wedi gofyn i gyfeillion yng Nghymru, a'r tu hwnt, i gynnig cipolwg ar yr hyn y bydd sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn ei olygu i'w sector gwaith hwy.

Mae eu absenoldeb yng Nghymru'n cyfyngu cryn dipyn ar gyfleoedd i blant.

*'The impact of innovative designs on activity in residential streets':*  
[www.cf.ac.uk/cplan/resources/Life-in-their-street-Biddulph.pdf](http://www.cf.ac.uk/cplan/resources/Life-in-their-street-Biddulph.pdf)

**Mike Biddulph**, *Uwch-Ddarlithydd mewn Dylunio Trefol, Prifysgol Caerdydd*

## Safbwynt Cymdeithasol a Gofodol

Bydd angen i ddimensiynau cymdeithasol a gofodol fod yn sail, nid yn unig i'r broses o asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yng Nghymru, ond hefyd realiti'r modd y caiff y polisi hwn ei fynegi a'i weithredu ar gyfer bywydau bob dydd plant yn y dyfodol.

Mae'r dimensiwn cymdeithasol yn ymwneud â'r angen i amryw o wahanol bobl ymgysylltu â deall mwy am chwarae. Felly mae rhieni, athrawon, penaethiaid, llywodraethwyr ysgol, addysgwyr y blynyddoedd cynnar, gweithwyr cymdeithasol, cynllunwyr, penseiri tirwedd, staff parciau a grwpiau cymunedol lleol yn rhai o'r gwahanol gymunedau y bydd angen iddynt newid eu dealltwriaeth o, a'u hagwedd tuag at, chwarae. Wrth i'r dealltwriaeth ynghylch chwarae gynyddu o fewn a rhwng cymunedau o'r fath, ac o ganlyniad o fewn cymdogaethau, bydd hyn yn arwain at werthfawrogiad gwahanol o'r dimensiwn gofodol sy'n darparu'r lleoliad ffisegol ar gyfer cyfleoedd chwarae awyr agored.

Yna, fe ddaw'n amlwg na ddylid cyfyngu manau i chwarae yn yr amgylchedd awyr agored i'r manau

hynny sydd wedi eu clustnodi ar gyfer chwarae, fel meysydd chwarae. Dylai cymunedau ddod i ddisgwyl fwyfwy y bydd rhwydwaith o fannau awyr agored yn darparu cyfleoedd chwarae. Dylai'r rhwydwaith hwn gynnwys tir a chaeau chwarae ysgolion, fydd ar gael y tu allan i oriau ysgol, ac o'r herwydd yn tyfu'n ffocws ar gyfer gweithgarwch a chwarae o fewn cymunedau. Mewn ardaloedd preswyl, dylid dylunio, gwella a rheoli'r tirwedd fel bod plant yn teimlo'n llawn cyffro, yn llawn her ac yn ddiogel i chwarae – sydd, ar hyn o bryd, yn her i'r trigolion yn ogystal â darparwyr tai. Ac yn glynw'r rhwydwaith ffisegol hwn at ei gilydd fydd y strydoedd, ble y dylai defnyddwyr ceir fod yn barod i arafu a mwynhau gweld plant yn cerdded i'r ysgol, yn chwarae, yn chwiloa yn eu hamgylchedd lleol neu'n cymdeithasu.

Os y daw'r ddau ofyniad yma, o weld cymdeithas yn derbyn chwarae a darpariaeth gofodol ar gyfer cyfleoedd chwarae yn yr amgylchedd awyr agored, yn rhan o etifeddiaeth y Dyletswydd, dylai hyn arwain at yr hyn y byddaf yn ei alw'n 'dirweddau chwareus', yn hytrach na (dim ond) manau chwarae awyr agored penodedig a elwir yn feysydd chwarae.

**Helen Woolley**, *Pensaer Tirwedd Siartredig a Darllenydd mewn Pensaerniaeth Tirwedd a Chymdeithas, Prifysgol Sheffield*

## Safbwynt Trafnidiaeth

Bydd amgylchedd sy'n annog chwarae'n dechrau ar riniog drws y plentyn. Mae'r siwrnai i'r ysgol neu i weithgaredd hamdden yn cynnig cyfle chwarae ynddi ei hun – bydd chwarae sgots ar gerrig y palmant

neu gerdded a balansio ar wal isel – yn brofiadau chwarae a gollir gan blant fydd wastad yn cael eu cludo mewn car ar gyfer eu holl siwrneiau lleol. Mae mudoledd annibynnol ar gyfer plant o oedran priodol yn rhan sylfaenol o'u datblygiad a'u dysg; mae cerdded a beicio'n cynnig opsiynau iach, hygyrch a rhad ar gyfer siwrneiau byrion. Fodd bynnag, mae pryderon rhieni ynghylch diogelwch ar y ffyrdd yn golygu bod plant, yn aml iawn, yn cael eu hatal rhag cerdded neu feicio'n annibynnol. Pan ofynnir i blant sut hofffen nhw deithio i'r ysgol, gan amlaf bydd tua 48% yn dweud yr hofffen nhw feicio, tra mai dim ond 2% sy'n gwneud hynny mewn gwirionedd.

Gofynnir i Awdurdodau Lleol, fel rhan o'u cynlluniau Asesu Digonolrwydd Chwarae, i asesu a darparu llwybrau cerdded a beicio diogel ac i gyflwyno cyfyngiadau cyflymder newydd o 20mya ble fo'n briodol. Mae gostegu cyflymder traffig yn fodd effeithlon o gynyddu cyfleoedd chwarae anffurfiol a gallu plant i symud o amgylch eu cymuned. Mae'r dyletswydd newydd hwn yn gymar da i Bapur Gwyn arall, yr ydym yn ymgynghori amdano ar hyn o bryd, sef Bil Teithio Llesol (Cymru), sydd wedi ei anelu at fynd i'r afael â'r prif rwystrau sy'n atal pobl rhag cerdded a beicio.

**Jane Lorimer**, *Dirprwy Gyfarwyddwraig, Sustrans Cymru*



## Cynllunio Dinasoedd gan ystyried y

# Plant

Mae *Planning Cities with Children in Mind* yn bapur cefndir gan Roger Hart ar gyfer adroddiad UNICEF 'State of the World's Children 2012: Children in an Urban World'.

Mae'r papur yn anelu i drafod sut y gallwn gyflwyno gwell dealltwriaeth o anghenion a safbwyntiau plant yn y gwaith o lywodraethu, cynllunio a rheoli dinasoedd. Mae'n ystyried modelau, o wledydd cyfoethog a thlawd, ar gyfer sut i ddynodi anghenion plant a sut y gallwn wella'r gwaith o lywodraethu a chynllunio a chanfod ffyrdd gwell i weithio â chymunedau, gan gynnwys y plant eu hunain, i'w datrys.

**Mae rhan gyntaf y papur yn archwilio'r hyn y mae plant ei angen o ddinasoedd; dyma ddyfyniadau o'r adran 'Playful City':**

## Dinas Chwareus

Mae plant angen gofod a deunyddiau chwarae digonol yn, ac o amgylch eu cartrefi. Yn anffodus, nid oes dealltwriaeth eang ymysg rhai sy'n rhoi gofal, ac ymysg y mwyafrif o bobl broffesiynol, ynghylch pwysigrwydd sylweddol chwarae. Y dimensiwn chwarae y mae'r mwyafrif o bobl yn ei ddeall yw ei werth ar gyfer ymarfer corff iach a thwf a datblygiad sgiliau corfforol. Elen llai amlwg i lawer o oedolion yw gwerth chwarae ar gyfer datblygiad meddwl a chreadigrwydd plant ac i ddysgu sgiliau cymdeithasol cydweithredu, rhannu a gofalu. Yn ogystal, gall chwarae gynnig modd pwysig i blant greu ymdeimlad o reolaeth dros amgylchiadau anodd. Ym mhob achos, yr egwyddor pwysig yw bod gan blant leoliadau sy'n caniatáu i chwarae ddigwydd, ac nad oes rhaid iddo gael ei gynllunio neu ei amserlennu.

Bydd plant yn ymdrechu i ehangu eu doniau'n raddol y tu allan i'w cartrefi trwy archwilio, chwarae ac arbrofi gyda byd ffisegol a chymdeithasol graddol fwy a mwy amrywiol. Byddant yn chwilio am heriau hylaw yn eu hamgylchedd bob dydd fydd

yn eu galluogi i ymarfer eu gallu trwy chwarae. Ond wrth i ddinasoedd dyfu'n fwy 'datblygedig', mae'n ymddangos bod bywydau plant yn tyfu'n fwyfwy ataliedig a rheoledig. Gwelwyd erydiad dramatig ym mudoedd annibynnol plant mewn nifer o ddinasoedd mewn gwledydd diwydiannol o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau'n amrywio o bryderon rhieni ynghylch diogelwch o amgylch dieithriaid a pheryglon traffig, i rym atyniadol technolegau electronig newydd yng nghartrefi plant. Ymatebodd polisïau a rhaglenni trwy ddarparu llw o raglenni ar ôl ysgol i lanw'r bwlch, ond nid yw'r math yma o weithgarwch wedi ei raglennu'n amnewidiad digonol am fuddiannau chwarae anffurfiol plant.

Mae'r diffyg rhyddid yma a geir yn y ddinas yn gwrthgyferbynnu'n fawr â chymaint o gymdogaethau tlawd y byd sy'n datblygu, ble y caiff plant ryddid sylweddol i grwydro ond bod hynny yn sgîl risg mawr o ddiodef problemau iechyd difrifol o ganlyniad i amgylchedd ffisegol afiach.

Yn aml gellir gweld y gwrthgyferbyniad rhwng y ddau fath gwahanol yma o dresmasiad ar hawl plant i chwarae yn agos i'w gilydd yn yr un ddinas yn y byd sy'n datblygu, ble fo plant tlawd yn rhedeg yn rhydd gyda'i gilydd trwy sbwriel heb ei gasglu ac yn neidio dros ffosydd carthffosiaeth agored tra bo plant eraill yn cael eu cloi, ar

eu pen eu hunain, y tu ôl i ffensys uchel a gatau diogelwch eu cartrefi dosbarth uchaf.

Fel arfer bydd cynghorau'n meddwl am ddigoni anghenion chwarae plant trwy ddarparu meysydd chwarae, er nad yw plant yn meddu ar weledigaeth mor gyfyng o chwarae. Pan fyddant yn chwarae mewn meysydd chwarae, byddant yn torri'n rhydd o'r ystod gyfyng o nodau a fwriadwyd gan y cynllunwyr a'r dylunwyr ac yn darganfod neu'n creu elfennau newydd yn yr offer ar gyfer mathau ychwanegol o weithgareddau. Nod cynllunio a dylunio ddylai fod i ddarparu lleoliadau ffisegol sy'n sicrhau cyfleoedd i bobl ifainc ganfod a chreu yr amrywiaeth mwyaf eang posibl o weithgareddau wrth iddynt ddatblygu.

Bydd angen i gynllunwyr feddwl am hierarchaeth gofodol o wahanol fathau o fannau chwarae er mwyn sicrhau cyfleoedd chwarae ar gyfer plant o bob oedran. Mae angen rhyw fath o ofod chwarae pontio bychan, diogel y tu allan i'r cartref, gaiff ei rannu â phlant y gymdogaeth, gan nad ydyn nhw'n barod eto i wynebu pwysau llawn cymhlethdodau a physurdeb y ddinas. Mae'r math delfrydol o fan chwarae rhwng cartrefi yn un sydd ddim yn gwbl 'cyhoeddus' nac yn gwbl 'breifat'; awgrymodd rhai y term 'gofod plwyfol'.

Wrth i blant dyfu'n fwy hyderus a'u bod yn dymuno ehangu eu maes rhodio, y cyfan y maent am ei wneud yw dod o hyd i fannau sy'n agos i'w cartref, sy'n ffisegol amrywiol, sy'n cynnwys plant eraill i chwarae â hwy a ble fo oedolion cefnogol ar gael gerllaw, ond heb fod yn hofran.

**Mae rhan olaf y papur yn archwilio materion sy'n ymwneud â gwella llywodraethu a chynllunio ar gyfer plant. Dyma ddyfyniadau o'r adran 'Community-based assessment, Planning and Design':**

## Cynnwys y Gymuned

Yn aml, gwelir plant yn loetran o amgylch prosiectau datblygu newydd, gan wyllo'r gwaith yn hiraethus, pryd y gallent fod wedi cael eu cynnwys mewn modd uniongyrchol, defnyddiol. Mewn cymuned ble fo trigolion yn chwarae rhan yn natblygiad a rheolaeth eu amgylchedd cymunedol, gall gweithiwr cymunedol deallus wneud cyfraniad gwych trwy helpu trigolion sy'n oedolion i ddarganfod doniau sylweddol pobl ifainc i gyfranogi.

Mae cyfleoedd i chwarae rhan yn y gwaith o wella'r amgylchedd ffisegol yn ffyrdd delfrydol i blant deimlo eu

bod yn gwneud cyfraniad ystyrion ac i gael eu cydnabod fel aelodau o'r gymuned. Mannau cyhoeddus unrhyw gymuned yw'r tir mwyaf amlwg ar gyfer cynnwys plant ac mae hon yn sefyllfa ble y gall llywodraeth [leol], yn rhwydd iawn, helpu i gynorthwyo gweithredu cymunedol.

Gall gwaith ymchwil gan blant fod yn sail ar gyfer gweithredu amgylcheddol gan blant mewn unrhyw gymuned. Mae mapio'n fodd arbennig o ddefnyddiol i blant ganfod sut y mae materion cymdogaethol – fel diffyg manau chwarae diogel, iach ar gyfer plant – yn cyd-berthyn â'i gilydd. Pan fydd plant yn cyflwyno gwaith ymchwil o'r fath i arweinyddion cynghorau lleol neu i gynllunwyr amgylcheddol, byddant fel arfer yn sicrhau dialog mwy gonest na phan fyddant ond yn cyflwyno datganiadau ynghylch yr hyn sydd angen ei wella.

**Mae Roger Hart yn cloi ei bapur trwy nodi:** Mae angen inni sicrhau ein bod yn cofio am blant o bob oed yn ein holl ymdrechion i wella amodau er mwyn cyflawni hawliau plant, fel y'i amlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Trwy hyn, dylem hefyd ddilyn egwyddorion blaengar



doniau esblygol plant a'u hawl i gyfranogi, sydd wrth galon CCUHP – er mwyn inni wella hawliau plant bydd rhaid inni weithio ar eu rhan, yn ogystal â gyda nhw.

© Children's Environments Research Group

Mae adroddiad *State of the World's Children 2012* ar gael ar:

[www.unicef.org/sowc/index\\_61804.html](http://www.unicef.org/sowc/index_61804.html)

**unicef** 

Gwneud digwyddiadau cymunedol yn

# fwy chwareus

Cynhelir digwyddiadau cyffrous ym Mhrydain eleni, gyda llawer o gymunedau'n dod ynghyd i ddathlu trwy drefnu partïon stryd neu ddigwyddiadau cymunedol eraill. Mae'r rhain yn gyfleoedd delfrydol i grwrdd â phobl eraill o bob oed mewn awyrgylch hwyliog a chyfeillgar yn y gymdogaeth ac i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae mewn digwyddiadau cymunedol.

Pan roddir cyfle i blant chwarae'r tu allan byddant yn cwrdd ac yn dod

i adnabod plant ac oedolion eraill yn y gymdogaeth, gan gynyddu cyfeillgarwch, ymddiriedaeth ac ysbryd cymunedol. Bydd hyn yn helpu rheini i ennill hyder i ganiatáu i'w plant chwarae'r tu allan ar adegau eraill o'r flwyddyn.

Hyderwn na chaiff y cyffro ddaw i gymunedau ar draws y DU eleni ei gyfyngu i fisoedd yr haf yn unig. Rydym yn rhagweld, wedi i'r baneri ddod i lawr, y bydd rhagor o ymwybyddiaeth y gall ein strydoedd,

gydag agwedd gadarnhaol ac ychydig o gydlyniant cymunedol, fod yn fannau'n llawn gweithgarwch chwareus trwy gydol y flwyddyn.

Mae Chwarae Cymru wedi creu adnoddau i gynorthwyo cymunedau i wneud digwyddiadau cymunedol yn fwy chwareus. Gellir lawrlwytho taflen wybodaeth a phoster Chwarae Cymru, *Gwneud Digwyddiadau Cymunedol yn Fwy Chwareus*, oddi ar: [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

Sut mae digon o

# chwarae

yn edrych?

## Stori Caitlin

**Caitlin Rowley, 12 oed, sy'n sôn wrthym am ei hatgofion o fynychu lansiad Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae (2006) pan oedd yn iau, a'r hyn y mae cyfleoedd chwarae digonol yn ei olygu iddi hi.**

Rwy'n cofio, pan oeddwn yn chwech oed, imi fynd i ddiwrnod chwarae yn Amgueddfa Sain Ffagan yng Nghaerdydd. Fe es i yno i glywed am ryw ddogfennau am chwarae gan y llywodraeth ac i wrando ar bobl yn areithio am chwarae. Dydw i ddim yn cofio llawer am yr hyn ddywedodd yr oedolion y diwrnod hwnnw, ond rwy'n cofio ei fod yn hwyl.

Rwy'n cofio chwarae gyda phlant hŷn a phlant iau. Fe wnaeth y rhai hŷn wthio ni'r rhai iau mewn berfa ac fe wnaeth pawb chwarae 'mob' gyda'i gilydd o amgylch yr ardd. Dydw i ddim yn cofio bod llawer o bethau wedi eu trefnu yn ystod y digwyddiad ond rwy'n cofio bod llawer o sdwff fel rhwydi a thiwbiau cardbord a'n bod wedi cael hwyl gyda'r rheini. Fe wnaethon ni adeiladu cuddfannau dan goeden gyda'r rhwydi a rholio yn y tiwbiau mawr. Roedd gennym sialc hefyd ac roedd yn grêt ein bod wedi cael caniatâd i dynnu lluniau ar y palmant o dan y goeden ac fe wnes i hongian â 'mhen i lawr yn y goeden!

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod y llywodraeth ac oedolion eraill yn gwrandao ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud am chwarae oherwydd ei bod yn bwysig gadael i blant chwarae.

Pan ofynnwyd imi 'sgwennu'r erthygl yma, doeddwn i ddim yn siŵr iawn beth oedd ystyr 'digonol'.

Fe edrychais yn y geiriadur, ac un diffiniad oedd 'digon'.

Dydw i ddim yn siŵr sut y mae 'digon' o chwarae'n edrych, ond rydw i yn gwybod y dylai plant gael eu cynnwys yn y gwaith o helpu i wneud penderfyniadau. Pe bae gennym fwy o fannau i chwarae a bod yn ni ein hunain yna, efallai, y byddai oedolion sy'n credu ein bod ar berwyl drwg â barn wahanol amdanon ni. Efallai y bydden nhw'n cofio yr hyn yr oedden nhw'n hoffi ei wneud pan oedden nhw'n ifanc.

Roedd parc ble rwy'n byw, gafodd ei dynnu i lawr yn ddirybudd.

Roedd llawer o bobl yn drist pan ddigwyddodd hyn gan mai dyma oedd un o'r unig lefydd yr oeddem yn ei ddefnyddio i chwarae. Rwy'n credu y byddai wedi bod yn well pe bae'r oedolion wnaeth benderfynu i dynnu'r

parc i lawr wedi dod i siarad am y peth gyda ni yn yr ysgol.

Hyd yn oed os nad oedd modd iddyn nhw greu parc newydd, fe ddylen nhw fod wedi dweud wrthyn ni pam eu bod yn ei chwalu. Efallai, un diwrnod, y bydd man ble y gall pobl fy oedran i gymdeithasu a chwarae eto.



*Caitlin, pan oedd yn chwech oed, gyda'i brawd Steve, yn y lansiad yn 2006*

# Y Diweddaraf am P<sup>3</sup> Haf 2012

Ers y diweddariad yn y gwanwyn mae cymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P<sup>3</sup>) wedi parhau i gael eu trosglwyddo trwy Gymru gyfan.

Ar hyn o bryd mae peilot o'r cymhwyster newydd – lefel 3 – yn cael ei gynnal yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf. Mae'r dysgwyr bellach wedi hen gael gafael ar y gwaith ac yn cynnig adborth gwych i Chwarae Cymru.

Chris Winwood, Gweithiwr Chwarae Cynhwysol

*'Mae'r hyfforddiant P<sup>3</sup> a dderbyniais hyd yma yr hyfforddiant mwyaf cynhwysfawr a gwerthfawr imi ei dderbyn erioed. Mae'r cwrs yn cyfuno cymysgedd gwych o weithgareddau a dysg sy'n berthnasol i fy sesiynau gwaith chwarae.'*

Lauren, Gweithwraig Chwarae Antur

*'Rwy'n mwynhau'r cwrs, mae'r cynnwys yn ddiddorol iawn ac mae'n darparu gwybodaeth defnyddiol y gallaf ei roi ar waith.'*

Lewis Parfitt, Gweithiwr Allgymorth

*'Rwyf wedi dysgu llawer am Waith Chwarae a datblygu fy hun ar gyfer bod yn arweinydd.'*

Ar hyn o bryd mae cymhwyster lefel 2 yn cael ei adolygu a'i wella ac yn cael ei gofrestru o'r newydd. Bydd y broses yma'n parhau tan yr Hydref a bydd yn arwain at gymhwyster sy'n adlewyrchu'r holl adborth a gasglwyd gan ddysgwyr, hyfforddwyr, aseswyr a chyflogwyr. Yn yr un modd â'r lefel 3 newydd, mae'r cymhwyster lefel 2 diwygiedig wedi ei fapio'n erbyn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) a bydd yn sefyll ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF). Dylai fod ar gael o fis Medi 2012.

Dylai'r cyfnod pontio o'r lefel 2 presennol i'r fersiwn diwygiedig fod yn un cwbl lyfn a bydd modd i ymgeiswyr sydd hanner ffordd trwy eu cymhwyster lefel 2 ar hyn o bryd allu parhau â'r fersiwn diwygiedig heb ail-adrodd unrhyw waith.

Mae gweithwyr chwarae proffesiynol o bob cwr o'r byd yn parhau i ddangos diddordeb yng nghymwysterau P<sup>3</sup>.

Ar hyn o bryd mae Chwarae Cymru'n gweithio gyda'n corff dyfarnu – y Scottish Qualifications Authority (SQA) – i greu systemau fydd yn caniatáu i ganolfannau eraill, sy'n cydymffurfio â'r safonau rheoli ansawdd llym, i gynnig cymwysterau P<sup>3</sup>. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio â chyfeillion o cyn belled i ffordd â Gogledd Iwerddon ac Awstralia, yn ogystal â rhai yng Nghymru.

I ddysgu mwy am gymwysterau P<sup>3</sup>, ebostiwhch Tillie Mobbs: [tillie@playwales.org.uk](mailto:tillie@playwales.org.uk)

## Hoffech chi fod yn Hyfforddwr P<sup>3</sup>?

Ydych chi'n weithiwr chwarae cymwys a phrofiadol sy'n frwd dros addysgu eraill am chwarae a gwaith chwarae? Yna, beth am ystyried bod yn hyfforddwr P<sup>3</sup>?

Yn ystod mis Hydref a Tachwedd bydd Chwarae Cymru'n cynnal cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr, dros chwe diwrnod, yng Nghaerdydd. Bydd y cwrs heriol hwn yn rhoi'r sgiliau i gyfranogwyr drosglwyddo hyfforddiant P<sup>3</sup> â hyder ac i ysbrydoli dysgwyr.

Dyddiadau:

6, 13 ac 20 Hydref, a  
3, 10 ac 17 Tachwedd 2012

Pris: £450 y dysgwr

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau:  
27 Awst 2012

Ceir mwy o wybodaeth a ffurflen gais ar-lein ar:  
[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

## Chwarae a'r Gweithlu – Arolwg Traws-Sector

Mae Chwarae Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eiriolwyr sector i gael mynediad i ariannu o Raglen Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae dros £15 miliwn ar gael trwy raglenni ar draws Cymru sydd wedi eu hanelu at godi lefelau sgiliau a mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau.

Fel rhan o'r gwaith yma, fe wnaethom gynnal Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant ymysg y bobl hynny sydd

angen cymwysterau chwarae a gwaith chwarae ar draws Cymru, er mwyn creu darlun o faint yr angen o fewn y sector.

Fe wyddom, o sgwrsio â phobl, bod yr angen yma'n fawr ac yn eang, ond yn anffodus dim ond 111 o ymatebion a dderbyniwyd, a dim ond 79 o'r rheini'n rhai cyflawn. Yr hyn yr oeddem ei angen oedd ffigyrau daearyddol, cadarn. Mae'r ffigyrau a gasglwyd wedi eu gogwyddo,

gan fod y mwyafrif o'r atebion gan weithwyr llawn amser, tra y gwyddom bod y mwyafrif o'r sector yn gweithio rhan amser.

Fodd bynnag, yr hyn gafodd ei gadarnhau yw bod y mwyafrif ohonoch yn methu cael mynediad i'r rhaglenni cymwysterau angenrheidiol.

Wnaethon ni ddim llwyddo i gasglu'r wybodaeth yr ydym ei angen ... felly, yn ôl â ni i'r cychwyn eto!

# adolygiad llyfr

## 'Playborhood: Turn your neighbourhood into a place for play'

Michaela Evans, Swyddog Llecynnu Cymdogaeth ar gyfer RCT Homes sy'n adolygu *Playborhood*...

Mae'r awdur, Mike Lanza, yn disgrifio sut y mae cymunedau dyfeisgar yng Nghanaada a'r Unol Daleithiau wedi creu ardaloedd chwarae cymdogol bywiog. Aiff Lanza ymlaen i egluro sut yr oedd am i'w deulu ei hun dyfu fyny mewn amgylchedd diogel wedi ei oruchwyllo gan oedolion, ble roedd cyfleoedd chwarae'n rhan allweddol o fywyd bob dydd. Dywed y dylid annog plant i chwarae'n rhydd bob dydd o'u bywyd.

Mae Lanza'n wftio peryglon chwarae'n rhydd, trwy ddweud bod ystadegau troseddol yn llawer uwch yn y gorffennol ac nad oes unrhyw dystiolaeth o bwys i brofi bod chwarae rhydd yn creu pryderon. Mae Lanza'n feirniadol o gymunedau modern ac mae'n eu cyhuddo o gymryd camau'n ôl o ran cyfleusterau chwarae. Mae'n annog rhieni i feddwl yn benodol am eu cymunedau eu hunain a rôl teuluoedd o fewn y gymdogaeth. Mae Lanza'n eiriol dros newid mewn diwylliant lleol er mwyn ehangu'r mudiad cymdogaeth-chwarae.

## 'Frank yr adeiladwr yn creu cymuned'

Mae un astudiaeth achos yn edrych ar waith Frank Shields (Pennod 9), adeiladwr lleol sydd wedi troi ei gymuned yn Seattle yn gymdogaeth-chwarae. Yn ystod misoedd yr haf bydd Shields yn adeiladu llithren ddŵr tri llawr o uchder sy'n glanio mewn pwll pum troedfedd o ddyfnder – er gwaethaf pryderon a godir gan yr Awdurdod Lleol. Mae Shields yn gwbl ddiweddar yn ei agwedd tuag at faterion lechyd a Diogelwch, gan fynnu nad oes unrhyw ddamweiniâu

nac anafiadau wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwn, oherwydd goruchwyliaeth digonol gan oedolion.

Trwy gydol misoedd yr haf bydd y gymuned yn dod ynghyd trwy drefnu digwyddiadau a gweithgareddau ac annog pob oed i gymryd rhan. Eglura Shields sut y mae'r diwylliant cymdogol wedi datblygu dros y blyneddau a sut y mae'r awryglch wedi newid yn raddol i fod yn gymuned gynhwysol.

Mae hwn yn lyfr hynod o ddiddorol a phryfoclyd sy'n gorfodi'r darlennydd i ystyried gwahanol elfennau chwarae ac sy'n hyrwyddo elfennau cadarnhaol creu cymdogaeth-chwarae. Mae'n sicr yn werth ei ddarllen gan ei fod yn ystyried elfennau o chwarae y gellid eu hymgorffori mewn cymunedau lleol gan feithrin ymdeimlad cyffredinol o gydlynid cymunedol.

<http://playborhood.com>

© Mike Lanza



## Ewch allan i chwarae!

Thema Diwrnod Chwarae eleni yw Ewch allan i chwarae! Ar 1 Awst, a thrwy gydol yr haf, cynhelir digwyddiadau ar draws y DU – gyda miloedd o blant a theuluoedd yn mynd allan i chwarae – er mwyn datlu hawl plant i chwarae.

Waeth os ydych yn trefnu digwyddiad bach cymunedol neu strafagansa fawr trwy'r ddinas gyfan, cofiwch gofrestru eich digwyddiad trwy wefan Diwrnod Chwarae. Bydd cyhoeddi eich digwyddiad ar y wefan yn helpu i gynyddu cyhoedduswydd a chyfranogaeth.

Os nad ydych am ddenu rhagor o sylw trwy roi cyhoedduswydd i'ch digwyddiad yn y cyfarwyddiadur ar-lein, cofiwch y dylech ddal i gofrestru eich digwyddiad er mwyn derbyn cefnogaeth.

Am fwy o wybodaeth defnyddio i'ch helpu i drefnu digwyddiad Diwrnod Chwarae, lawrlwythwch ganllaw *Get Organised!* sydd i'w gael yn rhad ac am ddim ar wefan Diwrnod Chwarae.

[www.playday.org.uk](http://www.playday.org.uk)

*Mae Llecynnu Cymdogaeth yn Rhaglen Gwella Amgylcheddau dros bum mlynedd gan RCT Homes (yn Rhondda Cynon Taf). Nod y prosiect yw gweithio â phobl leol i ddynodi anghenion a datblygu manau cymunedol sy'n ateb anghenion y gymuned. Mae ymgynghori'n elfen ganolog o'r prosiect er mwyn sicrhau bod y datblygiadau cywir yn cael eu gwneud er budd y gymuned yn y tymor hir trwy weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a sefydliadau eraill. 'Dyw'r prosiect ddim yn gyfyngedig i denantiaid RCT Homes, mae croeso i aelodau eraill o'r gymuned ymuno hefyd.*

[www.rcthomes.co.uk](http://www.rcthomes.co.uk)